

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Cyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012) Gorffennaf 2012

Gosodwyd Cyllideb Atodol 2012-13 Llywodraeth Cymru gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Mehefin 2012. Mae'r prif newidiadau a gynigir yn ymwneud â throsglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU a dyraniadau o gronfeydd wrth gefn. Mae hefyd yn nodi rhai trosglwyddiadau rhwng portffolios ac oddi mewn iddynt.

Bwriedir i'r papur hwn lywio'r gwaith craffu ar y gyllideb atodol. Mae'n cynnwys manylion am y newidiadau cyffredinol i floc Cymru a'r dyraniadau i bortffolios Llywodraeth Cymru o'u cymharu â Chyllideb Derfynol 2012-13

Gwasanaeth  
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:  
**[www.cynulliadcymru.org/research](http://www.cynulliadcymru.org/research)**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

**Y Gwasanaeth Ymchwil  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA**

E-bost: **[Research.Service@wales.gov.uk](mailto:Research.Service@wales.gov.uk)**  
Twitter: **[@YmchwilCCC](https://twitter.com/YmchwilCCC)**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 12/1812

## **Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Cyllideb Atodol 2012-13 (Mehefin 2012)  
Gorffennaf 2012

Dr Eleanor Roy

Rhif dogfen: 12 / 033

Gwasanaeth  
Ymchwil





## Crynodeb

Mae Cyllideb Atodol 2012-13 a gyhoeddwyd ar 26 Mehefin 2012 yn diwygio Cyllideb Derfynol 2012-13, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2011.

Ymddengys fod y gyllideb atodol hon yn cyflawni tri phrif ddiben:

- mae'n gwneud dyraniadau o gronfeydd wrth gefn a gymeradwywyd ers pasio cynnig y Gyllideb Derfynol;
- mae'n cyfleu'r ailflaenoriaethu o fewn portffolios y Gweinidogion ac yn gwneud trosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant; ac
- mae'n addasu'r llinellau sylfaen i gynnwys trosglwyddiadau o Lywodraeth y DU o ganlyniad i Gyllideb y DU 2012 a Datganiad yr hydref 2011.

**Mae cynnig y gyllideb atodol yn gwneud cais i'r Cynulliad awdurdodi y gall Gweinidogion Cymru dynnu £125 miliwn yn ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru ym mlwyddyn ariannol 2012-13.**

O gymharu â Chyllideb Derfynol 2012-13:

- Mae cyfanswm cyffredinol y gwariant a reolir wedi cynyddu 0.5%, neu £82.9 miliwn.
- Mae cyfanswm y gwariant a reolir (TME) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 0.9%, neu £142.4 miliwn.
- Mae cyfanswm y terfyn gwariant adrannol (DEL) wedi cynyddu 0.4%, neu £55.1 miliwn.
- Mae'r DEL a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 0.8%, neu £114.6 miliwn.
- Mae'r DEL refeniw a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 0.2%, neu £26.4 miliwn.
- Mae'r DEL cyfalaf a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 7.7%, neu £88.2 miliwn
- Mae'r gwariant a reolir yn flynyddol (AME) wedi cynyddu 7.4%, neu £27.8 miliwn.



# Cynnwys

1.	<b>Cyllideb Atodol 2012-13</b> .....	7
2.	<b>Y Prif ffigurau</b> .....	8
2.1	Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME).....	8
2.2.	Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) .....	9
2.2.1	DEL Refeniw .....	12
2.2.2	DEL Cyfalaf .....	13
2.3.	Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME).....	15
3.	<b>Newidiadau i'r llinell sylfaen a throsglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn</b> .....	16
3.1.	Dyraniadau cyfalaf a gedwir yn ganolog .....	19
3.2.	Dyraniadau sy'n gysylltiedig â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru .....	22
4.	<b>Trosglwyddiadau rhwng portffolios ac ailstrwythuro</b> .....	23
5.	<b>Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant</b> .....	26
6.	<b>Llywodraeth Leol a Chymunedau</b> .....	28
7.	<b>Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth</b> .....	31
8.	<b>Addysg a Sgiliau</b> .....	33
9.	<b>Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy</b> .....	35
10.	<b>Tai, Adfywio a Threftadaeth</b> .....	37
11.	<b>Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu</b> .....	39





## 1. Cyllideb Atodol 2012-13

Gosododd y Gweinidog Cyllid (Jane Hutt AC) Gynnig y Gyllideb Atodol 2012-13<sup>1</sup> ar 26 Mehefin 2012. Gosodwyd nodyn esboniadol<sup>2</sup> gyda'r cynnig a thablau yn dangos y dyraniadau<sup>3</sup> MEG.<sup>4</sup> Mae'r gyllideb atodol hon yn diwygio Cyllideb Derfynol 2012-13,<sup>5</sup> a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2011.

Ymddengys Fod y gyllideb atodol hon yn cyflawni tri phrif ddiben:

- mae'n gwneud dyraniadau o gronfeydd wrth gefn a gymeradwywyd ers pasio cynnig y Gyllideb Derfynol;
- mae'n cyfleu'r ailflaenoriaethu o fewn portffolios y Gweinidogion ac yn gwneud trosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant; ac
- mae'n addasu'r llinellau sylfaen i gynnwys trosglwyddiadau o Lywodraeth y DU o ganlyniad i Gyllideb y DU 2012 a Datganiad yr hydref 2011.

**Mae cynnig y gyllideb atodol yn gwneud cais i'r Cynulliad awdurdodi y gall Gweinidogion Cymru dynnu £125 miliwn yn ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru ym mlwyddyn ariannol 2012-13.<sup>6</sup>**

Mae'r ffigurau yn y papur hwn yn gysylltiedig â newidiadau o fewn y flwyddyn ariannol bresennol yn unig, ac felly fe'u dangosir ar ffurf **arian parod**; ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer chwyddiant.

Ceir rhagor o wybodaeth am broses y gyllideb atodol yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: [Y Gyllideb Atodol](#). Efallai y bydd [Geirfa'r Gyllideb](#) yn ddefnyddiol hefyd.

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, [Cynnig y Gyllideb Atodol 2012-13](#), Mehefin 2012 [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2012-13: Nodyn Esboniadol](#) Mehefin 2012 [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2012-13: Dyranniadau'r Prif Grwpiau Gwariant](#), Mehefin 2012 [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>4</sup> **Prif Grŵp Gwariant (MEG)** - caiff cyllideb Llywodraeth Cymru ei rhannu'n sawl lefel o fanylion at ddibenion monitro a rheoli. Y prif grwpiau gwariant yw'r prif lefel o fanylion ac maent yn cyfateb i bortffolios neu gyfrifoldebau'r Gweinidogion. O dan y lefel hwn, nodir gwariant yn ôl **meysydd y rhaglenni gwariant (SPAs)** ac yn ôl **gweithrediadau** o fewn y rhain.

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Derfynol 2012-13](#), Tachwedd 2011 [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, [Cynnig y Gyllideb Derfynol 2012-13](#), Mehefin 2012 (Atodlen 5 Tabl 2). Er gwybodaeth, mae'r ffigurau a gyflwynir yn y cynnig wedi'u seilio ar **adnoddau**, tra bo'r ffigurau a gyflwynir yn y tablau MEG, y nodyn esboniadol a'r briff hwn wedi'u cyflwyno ar sail **weinyddol**. Felly, nid yw'r ffigur o £125 miliwn yn cyfateb i'r ffigurau a gyflwynir isod. Mae'r gyllideb weinyddol yn cynnwys eitemau sy'n sgorio y tu allan i gyfrifon y Llywodraeth, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr adnoddau y mae Llywodraeth Cymru eu hangen. [fel ar 29 Mehefin 2012]

## 2. Y Prif ffigurau

Mae'r rhan hon yn rhoi manylion am y prif newidiadau a wnaed yn y gyllideb atodol hon. Ceir rhagor o fanylion am y newidiadau o fewn pob MEG ar lefel meysydd y rhaglenni gwariant (SPA)<sup>7</sup> yn adrannau 5 i 11 o'r papur hwn.

### 2.1. Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)

Mae **Tabl 1** yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i ddyraniadau TME<sup>8</sup>. O gymharu hyn â Chyllideb Derfynol 2012-13, gellir gweld:

- bod cyfanswm y TME ym mloc Cymru wedi cynyddu 0.5%, neu £82.9 miliwn.
- bod y TME a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu 0.9%, neu £142.4 miliwn.
- bod y cynnydd mwyaf yn y TME i'w weld yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, sef £75.9 miliwn, neu 1.2%.
- bod y cynnydd canrannol mwyaf yn y TME i'w weld ym MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, sef 4.2%, neu £13.7 miliwn.
- bod yr unig ostyngiad yn y TME, ar ffurf arian parod a chanrannau, i'w weld yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau, sef £21.8 miliwn, neu 0.4%.

---

<sup>7</sup> **Maes y Rhaglenni Gwariant (SPA)** - caiff cyllideb Llywodraeth Cymru ei rhannu'n sawl lefel o fanylion at ddibenion monitro a rheoli. Maes y Rhaglenni Gwariant yw'r ail lefel o fanylder o dan y prif grwpiau gwariant (MEG) ac maent yn diffinio'r grwpiau dyrannu penodol yn ôl y math o wasanaethau sydd i'w darparu.

<sup>8</sup> **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** - cyfanswm dwy elfen y gyllideb, sef y gwariant a reolir yn flynyddol (AME) a'r terfyn gwariant adrannol (DEL).

**Tabl 1: Newidiadau i Gyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)**

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Atodol 2012-13	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a chyllideb atodol 2012-13	
	£000	£000	£000	Per cent
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,469,006	6,544,950	75,944	1.2
Llywodraeth Leol a Chymunedau	5,168,827	5,147,024	-21,803	-0.4
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	313,728	316,628	2,900	0.9
Addysg a Sgiliau	1,987,278	2,033,131	45,853	2.3
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	326,812	340,522	13,710	4.2
Tai, Adfywio a Threftadaeth	514,330	527,138	12,808	2.5
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	348,082	361,041	12,959	3.7
<b>Cyfanswm Dyranïadau TME Llywodraeth Cymru</b>	<b>15,128,063</b>	<b>15,270,434</b>	<b>142,371</b>	<b>0.9</b>
Cronfeydd refeniw wrth gefn	165,403	150,042	-15,361	-9.3
Cronfeydd cyfalaf wrth gefn	49,521	5,422	-44,099	-89.1
Comisiwn y Cynulliad	47,477	47,477	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,740	4,740	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	3,853	3,853	0	0.0
Taliadau uniongyrchol	642	642	0	0.0
<b>Cyfanswm TME Cymru</b>	<b>15,399,699</b>	<b>15,482,610</b>	<b>82,911</b>	<b>0.5</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail Cyllidebau Llywodraeth Cymru.

## 2.2. Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)

Mae [Tabl 2](#) yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i gyfanswm y dyraniadau DEL<sup>9</sup> (refeniw a chyfalaf).

Mae [ffigur 1](#) yn dangos y newid yng nghyfanswm y DEL a ddyrennir i bob MEG o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2012-13, tra bo [ffigur 2](#) yn dangos canran y DEL ychwanegol a ddyrennir i bob MEG yn y gyllideb atodol hon.

O gymharu â Chyllideb Derfynol 2012-13:

- ceir cynnydd o 0.4% neu £55.1 miliwn yng nghyfanswm y DEL ym mloc Cymru oherwydd trosglwyddiadau o gronfeydd Llywodraeth y DU.
- ceir cynnydd o 0.8% neu £114.6 miliwn yn y DEL a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru, yn bennaf oherwydd dyraniadau o gronfeydd wrth gefn.
- ceir y cynnydd mwyaf mewn arian parod yng nghyfanswm y DEL yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, sef £56 miliwn, neu 0.9%.

<sup>9</sup> **Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** – fe'u gosodir fel arfer dros dair neu bedair blynedd fel rhan o broses Llywodraeth y DU o arolygu gwariant. Dyma derfyn aml-flwydd cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae rhan fwyaf o'r terfyniadau gwariant adrannol heb eu neilltuo (y gyllideb sydd wedi'i chlustnodi, neu'r grant bloc) ac mae'n rhoi disgrisiwn llwyr i Lywodraeth Cymru o ran ei blaenoriaethau gwario. Fformiwla Barnett sy'n pennu'r newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer gwariant o'r fath.


- ceir y cynnydd canranol mwyaf yng nghyfanswm y DEL ym MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, sef 4.2 y cant, neu £13.7 miliwn.
- mae'r unig ostyngiad a geir yng nghyfanswm y DEL, ar ffurf arian parod a chanrannau, i'w weld yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau, sef £8.9 miliwn, neu 0.2%.

**Tabl 2: Newidiadau yng nghyfanswm y DEL**

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Atodol 2012-13	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a'r gyllideb atodol 2012-13	
	£000	£000	£000	Per cent
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,287,226	6,343,240	56,014	0.9
Llywodraeth Leol a Chymunedau	5,104,513	5,095,639	-8,874	-0.2
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	272,326	275,226	2,900	1.1
Addysg a Sgiliau	1,836,753	1,854,822	18,069	1.0
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	326,812	340,522	13,710	4.2
Tai, Adfywio a Threftadaeth	572,840	592,648	19,808	3.5
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	349,919	362,883	12,964	3.7
<b>Cyfanswm Dyraniadau DEL Llywodraeth Cymru</b>	<b>14,750,389</b>	<b>14,864,980</b>	<b>114,591</b>	<b>0.8</b>
Cronfeydd refeniw wrth gefn	165,403	150,042	-15,361	-9.3
Cronfeydd cyfalaf wrth gefn	49,521	5,422	-44,099	-89.1
Comisiwn y Cynulliad	47,227	47,227	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,740	4,740	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,034	4,034	0	0.0
Taliadau uniongyrchol	642	642	0	0.0
<b>Cyfanswm DEL Cymru</b>	<b>15,021,956</b>	<b>15,077,087</b>	<b>55,131</b>	<b>0.4</b>


Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail Cyllidebau Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 1: Newidiadau canrannol yng nghyfanswm y DEL ar gyfer pob MEG**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail Cyllidebau Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 2: Canran y DEL ychwanegol a ddyrennir i bob MEG, o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2012-13**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail [Cyllideb Atodol 2012-13](#), Llywodraeth Cymru.

### 2.2.1. DEL Refeniw

Mae **Tabl 3** yn dangos y newidiadau yn y DEL refeniw, ac mae **ffigur 3** yn dangos y newid yn y DEL refeniw a ddyrennir i bob MEG. O gymharu'r rhain â Chyllideb Derfynol 2012-13, gellir gweld:


- bod y DEL refeniw ym mloc Cymru wedi cynyddu 0.1%, neu £11.1 miliwn. Ceir y cynnydd hwn yn sgîl trosglwyddiadau o Lywodraeth y DU.
- bod cynnydd o 0.2%, neu £26.4 miliwn, yn y DEL refeniw a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru. Mae trosglwyddiadau Llywodraeth y DU wedi'u hategu gan ddyraniadau o £15.3 miliwn o gronfeydd refeniw wrth gefn.
- bod y cynnydd mwyaf mewn arian parod yn y DEL refeniw yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, sef £34.9 miliwn, neu 0.6%.
- bod y cynnydd canrannol mwyaf yn y DEL refeniw i'w weld yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, sef 4.0%, neu £13 miliwn.
- bod y gostyngiad mwyaf yn y DEL refeniw, mewn arian parod, i'w weld yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau, sef £16.6 miliwn, neu 0.3%.
- bod y gostyngiad mwyaf yn y DEL refeniw, o ran canran, i'w weld yn y MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, sef 3.3%, neu £6.0 miliwn.

**Tabl 3: Newidiadau i'r DEL refeniw**

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Atodol 2012-13	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a'r gyllideb atodol 2012-13	
	£000	£000	£000	Per cent
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	6,046,623	6,081,527	34,904	0.6
Llywodraeth Leol a Chymunedau	4,842,872	4,826,288	-16,584	-0.3
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	182,870	176,870	-6,000	-3.3
Addysg a Sgiliau	1,675,410	1,676,529	1,119	0.1
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	265,183	265,153	-30	-0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	278,282	278,330	48	0.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	321,455	334,419	12,964	4.0
<b>Cyfanswm DEL Refeniw Llywodraeth Cymru</b>	<b>13,612,695</b>	<b>13,639,116</b>	<b>26,421</b>	<b>0.2</b>
Cronfeydd refeniw wrth gefn	165,403	150,042	-15,361	-9.3
Cronfeydd cyfalaf wrth gefn	0	0	0	0.0
Comisiwn y Cynulliad	46,565	46,565	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	4,724	4,724	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	4,020	4,020	0	0.0
Taliadau uniongyrchol	642	642	0	0.0
<b>Cyfanswm DEL Refeniw Cymru</b>	<b>13,834,049</b>	<b>13,845,109</b>	<b>11,060</b>	<b>0.1</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail Cyllidebau Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 3: Y newid canrannol yn y DEL ar gyfer pob MEG**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail Cyllidebau Llywodraeth Cymru.

### 2.2.2. DEL Cyfalaf

Mae **Tabl 4** yn dangos y newidiadau yn y DEL cyfalaf, ac mae **ffigur 4** yn dangos y newid yn y DEL cyfalaf a ddyrennir i bob MEG. O gymharu'r rhain â Chyllideb Derfynol 2012-13, gellir gweld:


- bod y DEL cyfalaf ym mloc Cymru wedi cynyddu 3.7%, neu £44.1 miliwn. Ceir y cynnydd hwn yn sgîl trosglwyddiadau gan Lywodraeth y DU.
- bod cynnydd o 7.7%, neu £88.2 miliwn, yn y DEL cyfalaf a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru. Mae trosglwyddiadau Llywodraeth y DU wedi'u hategu gan ddyraniadau o £44.1 miliwn o gronfeydd cyfalaf wrth gefn.
- bod y cynnydd mwyaf mewn arian parod yn y DEL cyfalaf i'w weld yn y MEG Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, sef £21.1 miliwn, neu 8.8%.
- bod y cynnydd canrannol mwyaf yn y DEL cyfalaf i'w weld ym MEG yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, sef 22.3%, neu £13.7 miliwn.
- nad oes gostyngiadau yn y DEL cyfalaf.

**Tabl 4: Newidiadau i'r DEL cyfalaf**

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Atodol 2012-13	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a'r gyllideb atodol 2012-13	
	£000	£000	£000	Per cent
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	240,603	261,713	21,110	8.8
Llywodraeth Leol a Chymunedau	261,641	269,351	7,710	2.9
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	89,456	98,356	8,900	9.9
Addysg a Sgiliau	161,343	178,293	16,950	10.5
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	61,629	75,369	13,740	22.3
Tai, Adfywio a Threftadaeth	294,558	314,318	19,760	6.7
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	28,464	28,464	0	0.0
<b>Cyfanswm Dyraniadau DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru</b>	<b>1,137,694</b>	<b>1,225,864</b>	<b>88,170</b>	<b>7.7</b>
Cronfeydd referniw wrth gefn	0	0	0	0.0
Cronfeydd cyfalaf wrth gefn	49,521	5,422	-44,099	-89.1
Comisiwn y Cynulliad	662	662	0	0.0
Archwilydd Cyffredinol Cymru	16	16	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	14	14	0	0.0
Taliadau uniongyrchol	0	0	0	0.0
<b>Cyfanswm DEL Cyfalaf Cymru</b>	<b>1,187,907</b>	<b>1,231,978</b>	<b>44,071</b>	<b>3.7</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail Cyllidebau Llywodraeth Cymru.

**Ffigur 4: Newid canrannol yn y DEL cyfalaf ar gyfer pob MEG**



Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail Cyllidebau Llywodraeth Cymru.



### 2.3. Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

Mae **Tabl 5** yn rhoi trosolwg o'r newidiadau i ddyraniadau AME<sup>10</sup>. O'u cymharu â Chyllideb Derfynol 2012-13, gellir gweld:

- bod yr AME wedi cynyddu 7.4%, neu £27.8 miliwn. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y rhagolygon wedi'u diwygio.
- bod y cynnydd mwyaf yn yr AME, ar ffurf arian parod a chanrannau, i'w weld yn y MEG Addysg a Sgiliau, sef £27.8 miliwn, neu 18.5%. Mae hyn wedi digwydd oherwydd bod y rhagolygon ar gyfer Benthyciadau i Fyfyrrwyr wedi'u diwygio.
- bod y gostyngiad mwyaf yn yr AME, ar ffurf arian parod a chanrannau, i'w weld yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau, sef £12.9 miliwn, neu 20.1%. Mae hyn yn adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ar wella a chynnal a chadw'r rhwydwaith cefnffyrdd.

**Tabl 5: Newidiadau i'r AME**

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol 2012-13	Cyllideb Atodol 2012-13	Y newid rhwng y gyllideb derfynol a'r gyllideb atodol 2012-13	
	£000	£000	£000	Per cent
Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant	181,780	201,710	19,930	11.0
Llywodraeth Leol a Chymunedau	64,314	51,385	-12,929	-20.1
Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth	41,402	41,402	0	0.0
Addysg a Sgiliau	150,525	178,309	27,784	18.5
Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy	0	0	0	0.0
Tai, Adfywio a Threftadaeth	-58,510	-65,510	-7,000	12.0
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	-1,837	-1,842	-5	-0.3
<b>Cyfanswm Dyraniadau AME Llywodraeth Cymru</b>	<b>377,674</b>	<b>405,454</b>	<b>27,780</b>	<b>7.4</b>
Comisiwn y Cynulliad	250	250	0	0.0
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	-181	-181	0	0.0
<b>Cyfanswm AME Cymru</b>	<b>377,743</b>	<b>405,523</b>	<b>27,780</b>	<b>7.4</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail Cyllidebau Llywodraeth Cymru.

<sup>10</sup> **Gwariant a reolir yn flynyddol (AME)** – mae gwariant yn yr AME yn llai rhagweladwy na hwnnw yn y DEL. Mae'n cynnwys gwariant ar sail galw yn gyffredinol ac felly nid yw'n rhesymol bod y ddarpariaeth yn destun cyfyngiadau aml-flyydd (er enghraifft, o ran benthyciadau i fyfyrwyr). Adolygir a phennir hwn ddwywaith y flwyddyn gan Drysorlys EM. Dim ond i'r diben y'i neilltuwyd y gellir dyrannu gwariant a reolir yn flynyddol; felly, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ddisgresiwn o ran ei ddyrannu. Gellir cael rhagor o AME gan Drysorlys EM os bydd ei angen, a bydd yn rhaid dychwelyd unrhyw arian o'r fath na chafodd ei wario.

### 3. Newidiadau i'r llinell sylfaen a throsglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn

Bu nifer o drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU:

- Trosglwyddwyd £1 filiwn o refeniw gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r System Drwyddedu Symudiadau Anifeiliaid; aeth yr arian hwn i'r cronfeydd wrth gefn ac fe'i dyrannwyd i'r MEG Busnes, Technoleg, Menter a Gwyddoniaeth.
- Trosglwyddwyd £1.9 filiwn o refeniw i Adran Arloesi ar gyfer Busnes a Sgiliau y DU mewn perthynas â Mapio Digidol Trawslywodraethol. Trosglwyddwyd yr arian hwn i'r gronfa wrth gefn o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
- Trosglwyddwyd £5.4 miliwn mewn symiau canlyniadol o ganlyniad i Gyllideb y DU 2012.
- Trosglwyddwyd £12 miliwn mewn refeniw a £38.7 miliwn mewn symiau canlyniadol cyfalaf o ganlyniad i Ddatganiad yr hydref 2011.

Felly, bu cynnydd cyffredinol o £55.2 miliwn<sup>11</sup> yng nghyfanswm y DEL o ganlyniad i drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU: £1.1 filiwn mewn DEL refeniw a £44.1 miliwn mewn DEL cyfalaf. Ceir y manylion am y trosglwyddiadau hyn yn [nhabl 6](#). Yn ogystal â'r cynnydd o £27.8 miliwn yn yr AME o ganlyniad i ddiwygio'r rhagolygon, mae hyn yn golygu cynnydd o £82.9 miliwn yn y TME i floc Cymru.

**Tabl 6: Trosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU**

Mesurau Llywodraeth y DU	DEL refeniw £000	DEL cyfalaf £000	Cyfanswm y DEL £000
Trosglwyddiad o DEFRA ar gyfer y System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid	1,000		1,000
Trosglwyddiad i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ar gyfer Mapio Digidol Trawslywodraethol	-1,900		-1,900
<b>Datganiad yr hydref, Tachwedd 2011</b>	<b>11,986</b>	<b>38,714</b>	<b>50,700</b>
Trafnidiaeth		3,578	3,578
Tŵf a Gwyrdd		3,456	3,456
Addysg		16,704	16,704
Tai		14,976	14,976
Y Cytundeb Ieuenctid	4,691		4,691
Gofal i blant yn y blynyddoedd cynnar	4,110		4,110
Pris tocynnau trên	5,011		5,011
Cyfyngiadau cyflog	-1,826		-1,826
<b>Cyllideb y DU 2012</b>		<b>5,357</b>	<b>5,357</b>
Tai		5,357	5,357
<b>Cyfanswm</b>	<b>11,086</b>	<b>44,071</b>	<b>55,157</b>

<sup>11</sup> Mae'n debyg bod gwahaniaeth rhwng cyfanswm y DEL o £55.2 miliwn a nodir yma, a'r cynnydd o £55.1 miliwn yng nghyfanswm y DEL a ddangosir yn nhabl 2, o ganlyniad i dalgrynnu'r ffigurau.

Mewn gohebiaeth i'r Pwyllgor ar ôl cyhoeddi Cyllideb Atodol 2011-12 ym mis Chwefror 2012,<sup>12</sup> nododd y Gweinidog Cyllid mai'r symiau canlyniadol a ddisgwylir yn 2012-13, o ganlyniad i Ddatganiad yr hydref 2011, yw £38.7 miliwn mewn DEL cyfalaf a £26.25 miliwn mewn DEL refeniw. Ers hynny, mae'r Gweinidog wedi egluro bod y £26.5 miliwn a nodwyd yn flaenorol yn cynnwys tua £14 miliwn o symiau canlyniadol sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi estyn y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach. Yn y maes hwn, gall Llywodraeth Cymru ddewis cymryd y symiau canlyniadol neu gadw'r cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach yng Nghymru. Yn yr achos hwn, gwnaed y penderfyniad i barhau â'r cynllun rhyddhad ardrethi a rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor fod hyn yn fargen well i Gymru na'r £14 miliwn mewn symiau canlyniadol.<sup>13</sup>

Gwneir yr holl drosglwyddiadau hyn drwy'r cronfeydd wrth gefn. Dangosir y trosglwyddiadau hyn yn [nhabl 7](#). Gellir gweld o hyn:

- bod y cronfeydd refeniw wrth gefn wedi gostwng £15.4 miliwn; mae hyn yn cynnwys cynnydd net o £11.1 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU a dyraniadau o £26.4 miliwn i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru. Refeniw cyllidol yw hwn i gyd;<sup>14</sup> ni fu newidiadau i'r cronfeydd refeniw anghyllidol wrth gefn<sup>15</sup>.
- bod y cronfeydd cyfalaf wrth gefn wedi gostwng £44.1 miliwn; mae hyn yn cynnwys cynnydd o £44.1 miliwn o ganlyniad i drosglwyddiadau gyda Llywodraeth y DU a dyraniadau o £88.2 miliwn i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru.

---

<sup>12</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, [Llythyr gan y Gweinidog Cyllid at y Pwyllgor Cyllid](#) (Saesneg yn unig), 28 Chwefror 2012 [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>13</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 4 Gorffennaf 2012 [nid oedd linc ar gael pan gyhoeddwyd y papur]

<sup>14</sup> **DEL refeniw cyllidol** - fe'i gelwir hefyd yn gost sydd bron yn arian parod, ac mae'n gyfanswm rheoli a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Mae hwn yn mesur cronïadau ar gyfer trosglwyddiadau y byddai disgwyl iddynt droi yn llif arian yn fuan. Mae'n ystyried y gwahaniaethau rhwng yr adnoddau a ddefnyddir a'r llifau arian ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Er enghraifft, caiff arian ei wario ar nwy/trydan wrth i'r tanwydd gael ei ddefnyddio, er ei bod yn bosibl y gwneir y taliad gwirioneddol fel ôl-daliad ar sail chwarterol. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys tâl, caffael, grantiau refeniw a chymorthdaliadau. Nid yw'n cynnwys costau nad ydynt yn rhai cyllidol (heb fod yn arian parod).

<sup>15</sup> **DEL refeniw nad yw'n gyllidol** - fe'i gelwir hefyd yn refeniw heb fod yn arian parod ac mae'n gyfanswm rheoli a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Mae'n mesur cronïadau a ddefnyddir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cyswllt uniongyrchol i'r llifau arian parod yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae enghreifftiau o refeniw nad yw'n arian parod yn cynnwys dibrisiant, darpariaethau a chost cyfalaf. Bydd taliadau o'r fath naill ai byth yn arwain at gost arian parod wirioneddol (ee cost cyfalaf), neu bydd ond yn arwain at daliadau arian parod mewn blynyddoedd i ddod (ee darpariaethau). Ni ellir defnyddio refeniw nad yw'n arian parod i ariannu gwariant cyllidol (neu wariant sydd bron yn arian parod).

Y dyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn sydd i gyfrif am y cyfanswm DEL ychwanegol o £114.6 miliwn a ddyranwyd i brif grwpiau gwariant Llywodraeth Cymru.

**Tabl 7: Trosglwyddo cronfeydd wrth gefn**

Cronfeydd refeniw wrth gefn	Cyllidol £ miliynau	Anghyllidol £ miliynau	Cronfeydd cyfalaf wrth gefn	2012-13 £ miliynau
<b>Cronfeydd wrth gefn yng Nghyllideb Derfynol 2012-13</b>	<b>97.27</b>	<b>68.14</b>	<b>Cronfeydd wrth gefn yng Nghyllideb Derfynol 2012-13</b>	<b>49.52</b>
I Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant: Amseroedd Aros Orthopedig	-12.20		Trosglwyddiad gyda'r DU: symiau canlyniadol o Ddatganiad yr hydref 2011	38.70
I Llywodraeth Leol a Chymunedau: Gwasanaethau Cynghori am Ddim	-0.75		Trosglwyddiad gyda'r DU: symiau canlyniadol o Gyllideb y DU 2012	5.40
I Llywodraeth Leol a Chymunedau: Menter Benthycia Llywodraeth Leol O Lywodraeth y DU: trosglwyddiad o DEFRA	-4.00		Dyraniadau cyfalaf a gedwir yn ganolog	-44.20
I Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: trosglwyddiad o DEFRA	1.00		Dyraniadu Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru	-44.00
I Addysg a Sgiliau: Grant Amdifadedd Disgyblion	-1.00			
I Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: Buddsoddi i Arbed O Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu: i Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau y DU	-0.39			
I Lywodraeth y DU: trosglwyddo i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Trosglwyddiad gyda'r DU: symiau canlyniadol o Ddatganiad yr hydref 2011	-10.00			
	1.93			
	-1.93			
	12.00			
<b>Y cronfeydd wrth gefn sydd dros ben</b>	<b>81.91</b>	<b>68.14</b>	<b>Y cronfeydd wrth gefn sydd dros ben</b>	<b>5.42</b>

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail Cyllidebau Llywodraeth Cymru. Efallai na fydd y ffigurau yn cyfateb i'r cyfansymiau oherwydd eu bod wedi'u dalgrynnu.

Trafodir y dyraniadau sy'n gysylltiedig â'r cyfalaf a gedwir yn ganolog a'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn adrannau 3.1 a 3.2 o'r papur hwn, yn y drefn honno.

Mae'r nodyn esboniadol sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol yn nodi manylion am y dyraniadau rheolaidd o'r cronfeydd wrth gefn a fydd yn cael effaith mewn blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn dangos bod dyraniadau rheolaidd yn ymrwymo £3.6 miliwn arall o'r cronfeydd wrth gefn yn 2013-14, a £18.9 miliwn yn 2014-15.<sup>16</sup>

Ar ôl y gyllideb atodol hon, dyma'r cronfeydd wrth gefn sydd dros ben:

- £81.9 miliwn mewn refeniw cyllidol;
- £68.1 miliwn mewn refeniw anghyllidol; a
- £5.4 miliwn mewn cyfalaf.

<sup>16</sup> Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Atodol 2012-13: Nodyn Esboniadol*, Mehefin 2012 (Atodiad 3, tudalen 51) [fel ar 29 Mehefin 2012]

Pan gyhoeddwyd y gyllideb atodol ddiwethaf yn 2011-12, nododd y Gweinidog Cyllid ei bwriad i gario tua £33 miliwn yn ei flaen i 2012-13 o dan y dull cyfnewid cyllideb.<sup>17</sup> O'r £33 miliwn hyn: dyranwyd tua £28.2 miliwn drwy Gyllideb Derfynol 2012-13<sup>18</sup> ac mae'r gyllideb atodol bresennol yn dyrannu £4.8 miliwn yn ychwanegol.<sup>19</sup> Nid yw'r gyllideb atodol hon yn cynnwys addasiadau llinell sylfaen i gario hyn yn ei flaen, ac mae'n nodi:

Caiff manylion yr union swm i'w ddwyn ymlaen o 2011-12 eu cadarnhau ar ôl cwblhau Cyfrifon Blyneddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-12. Caiff addasiadau i'n llinell sylfaen i adlewyrchu'r swm terfynol a ddygir ymlaen eu gwneud yn nes ymlaen yn y flwyddyn drwy broses Amcangyfrif Atodol y Deyrnas Unedig. Felly, nid yw'r Gyllideb Atodol hon yn adlewyrchu unrhyw addasiad i Floc Cymru o ran y System Cyfnewid Cyllidebau.<sup>20</sup>

Ar wahân i'r swm hwn o £33 miliwn y bwriedir ei gario ymlaen, ar ôl y gyllideb atodol ddiwethaf, roedd £23.6 miliwn mewn cronfeydd refeniw wrth gefn ar ôl yn 2011-12. Nododd y Gweinidog fod hyn ar gyfer darparu ar gyfer cais brys am gronfeydd wrth gefn cyn diwedd y flwyddyn ariannol, ond nid oedd yn rhagweld y byddai angen gwneud hyn.<sup>21</sup> Ers hynny, mae'r Gweinidog wedi cadarnhau na ddyranwyd dim o'r arian wrth gefn hwn a oedd yn weddill yn ystod blwyddyn ariannol 2011-12 a'i bod yn gofyn i gael cario hwn yn ei flaen i 2012-13 o dan y system cyfnewid cyllidebau, yn ogystal â'r £33.2 miliwn y bwriadwyd ei gario ymlaen eisoes. Mae hyn yn amodol ar gytundeb Trysorlys EM a bydd yn rhaid pleidleisio arno drwy broses Amcangyfrifon Atodol y DU; fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn disgwyl y bydd hyn yn ymddangos yn y cronfeydd wrth gefn yn ail gyllideb atodol 2012-13.<sup>22</sup>

### *3.1. Dyraniadau cyfalaf a gedwir yn ganolog*

O'r dyraniadau a wneir o gronfeydd cyfalaf wrth gefn, mae £44.2 miliwn yn gysylltiedig â phrosiectau a gaiff eu cyllido o gyfalaf a gedwir yn ganolog (CRC). Nodir y manylion am y dyraniadau hyn yn [nhabl 8](#), yn ogystal â'r dyraniadau dangosol ar gyfer 2013-14. Mae £8.3 miliwn o'r dyraniadau hyn yn gysylltiedig â

---

<sup>17</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, [Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2012](#) [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>18</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Derfynol 2012-13](#), Tachwedd 2012 [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>19</sup> £4 miliwn i Fenter Benthycu Llywodraeth Leol a £0.8 miliwn mewn perthynas â Gwasanaethau Cyngori am Ddim, fel y nodir yn [nhabl 7](#).

<sup>20</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2012-13: Nodyn Esboniadol](#), Mehefin 2012 (tudalen 11) [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>21</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, [Cofnod y Trafodion, 20 Chwefror 2012](#) [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>22</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, [Cofnod y Trafodion, 4 Gorffennaf 2012](#)

phrosiectau cyfnod 1 CRC,<sup>23</sup> ac mae £35.9 miliwn yn gysylltiedig â phrosiectau cyfnod 2.<sup>24</sup>

**Tabl 8: Dyraniadau CRC**

Prosiect	Dyraniad yng nghyllideb atodol 2012-13 £ miliynau	Dyraniad dangosol 2013-14 £ miliynau	Y weithred y gwnaed y dyraniad ar ei chyfer
<b>Prosiectau Cyfnod 1 CRC</b>			
<b>Llywodraeth Leol a Chymunedau</b>	<b>3.9</b>	<b>3.9</b>	
Gwella'r A470 rhwng Maes yr Helmau a Cross Foxes	1.9	1.9	Cynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd
A470 Gelligemlyn	2.0	2.0	Cynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd
<b>Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth</b>	<b>2.9</b>	<b>2.7</b>	
Gwasanaethau Ar-lein ar gyfer Taliadau Gwledig	2.9	2.7	Cyflenwi'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig
<b>Tai, Adfywio a Threftadaeth</b>	<b>1.5</b>	<b>1.5</b>	
Hen Neuadd Dref Merthyr Tudful	1.5	1.5	Rhoi meysydd adfywio strategol ar waith
<b>Cyfanswm cyfnod 1</b>	<b>8.3</b>	<b>8.1</b>	
<b>Prosiectau Cyfnod 2 CRC</b>			
<b>Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant</b>	<b>8.6</b>	<b>2.0</b>	
Canolfan Adnoddau Ambiwlans Wrecsam	2.7		Cyflenwi'r GIG
Ysbyty BrenhinoI Caerdydd	5.9	2.0	Cyflenwi'r GIG
<b>Llywodraeth Leol a Chymunedau</b>	<b>6.3</b>	<b>5.4</b>	
System Data Traffig Genedlaethol Cymru	4.0	3.0	Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd
Cynllun Gwella Cyffordd 32 yr M4 ger Coryton	0.4	1.7	Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd
Prosiect Cadernid Cenedlaethol Cymru ar gyfer y Gaeaf: Cadw Halen ar gyfer y Ffordd	1.9	0.7	Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd
<b>Addysg a Sgiliau</b>	<b>9.0</b>	<b>9.1</b>	
Porth i'r Cymoedd	2.0	2.1	Yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG
Ad-drefnu yr ystâd ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin	7.0	7.0	Yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG
<b>Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy</b>	<b>2.0</b>	<b>0.0</b>	
Prosiectau i Reoli Llifogydd ac Erydu ArfordiroI: lleihau'r risg i safleoedd sydd mewn perygl yn rhanbarthau Bae Colwyn a'r Borth	2.0	0.0	Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ar berygl llifogydd ac arfordiroedd, dŵr a charthfosaiaeth
<b>Tai, Adfywio a Threftadaeth</b>	<b>10.0</b>	<b>5.0</b>	
Menter Troi Tai'n Gartrefi	5.0	0.0	Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai
Prosiect Adfywio Tai Gorllewin Rhyl	5.0	5.0	Rhoi meysydd adfywio strategol ar waith
<b>Cyfanswm cyfnod 2</b>	<b>35.9</b>	<b>21.5</b>	
<b>Cyfanswm y dyraniadau CRC</b>	<b>44.2</b>	<b>29.6</b>	

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil ar sail [Cyllideb Atodol 2012-13](#), [Cyllideb Atodol 2011-12](#) Llywodraeth Cymru (Chwefror 2012) a Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet gan Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), Llywodraeth Cymru, [Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog](#), 23 Tachwedd 2011.

<sup>23</sup> Fel y nodir yn [Cyllideb Atodol 2011-12](#) Llywodraeth Cymru (Chwefror 2012) [fel ar 4 Gorffennaf 2012]

<sup>24</sup> Fel y nodir yn Natganiad Ysgrifenedig y Cabinet gan Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), Llywodraeth Cymru, [Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog](#), 23 Tachwedd 2011 [fel ar 4 Gorffennaf 2012]

Nododd ail gyllideb atodol 2011-12<sup>25</sup> fod £8.3 miliwn yn weddill i'w ddyrannu i brosiectau cyfnod 1 yn 2012-13. Gwneir y dyraniadau hyn yn y gyllideb atodol hon.

Yn ei datganiad ysgrifenedig ym mis Tachwedd 2011,<sup>26</sup> cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid y byddai £43.6 miliwn yn cael ei ddyrannu yn 2012-13 ar gyfer prosiectau cyfnod 2, a £43.7 miliwn yn 2013-14 ar draws 16 prosiect.

Mae'r gyllideb atodol hon yn nodi'r dyraniadau o £35.9 miliwn yn 2012-13 a £21.5 miliwn yn 2013-14 i brosiectau cyfnod 2. Mae hyn yn golygu bod y dyraniadau i brosiectau cyfnod 2 £7.7 miliwn yn llai na'r hyn a nodwyd yn 2012-13, a £22.2 miliwn yn llai na'r hyn a nodwyd yn 2013-14, gan adael cyfanswm o tua £30 miliwn i gael ei ddyrannu. Cyhoeddwyd y dyraniadau a ganlyn yn natganiad mis Tachwedd 2011<sup>27</sup>, ond nid oes dyraniadau ar eu cyfer yn ymddangos yn y gyllideb atodol gyfredol:

- £6 miliwn i Dechrau'n Deg;
- £10 miliwn ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf;
- £7.5 miliwn i Ynys Môn – Ysgol y Bont;
- £3 miliwn i Ardal Ddysgu Merthyr; a
- £3.5 miliwn i ysgolion Cymraeg yng ngogledd Cymru.

Mae'r Gweinidog Cyllid wedi cadarnhau bod y diffyg o ran dyraniadau yn gysylltiedig â'r prosiectau uchod, a'i fod yn adlewyrchu'n bennaf y ffaith nad yw'r achosion busnes wedi'u cwblhau hyd yn hyn. Felly, disgwylir y bydd rhagor o ddyraniadau'n cael eu gwneud yng nghyllideb atodol ddilynol 2012-13, neu ym mlwyddyn ariannol 2013-14.

---

<sup>25</sup> Y Gwasanaeth Ymchwil, [Cyllideb Atodol 2011-12](#), Chwefror 2012 (Tabl 9 tudalen 22) [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>26</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad Cabinet Ysgrifenedig gan Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), [Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog](#), 23 Tachwedd 2011 [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>27</sup> *ibid*

### 3.2. Dyraniadau sy'n gysylltiedig â Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru,<sup>28</sup> a gwnaeth y Gweinidog Cyllid ddatganiad llafar arno.<sup>29</sup> Yn y cynllun, nodir y manylion am y £44 miliwn o ddyraniadau cyfalaf i'w gwneud ym mlwyddyn ariannol 2012-13. Caiff y rhain eu rhoi ar waith yn y gyllideb atodol hon, ac fe'u dangosir yn [nhabl 9](#).

**Tabl 9: Dyraniadau cyfalaf sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**

Prosiect	2012-13 (£ miliynau)	Y weithred y gwnaed y dyraniad ar ei chyfer
<b>Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant</b>	<b>6.8</b>	
Ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd	2.5	Cyflenwi'r GIG
Uned Iechyd Meddwl Aciwt Ysbyty Llandochau	4.3	Cyflenwi'r GIG
<b>Llywodraeth Leol a Chymunedau</b>	<b>3.2</b>	
Siopau un stop ar gyfer y rheini sy'n dioddef cam-drin yn y cartref	0.5	Cam-drin domestig Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a
Llain galed cyffordd 33-34 yr M4	1.5	Chefnffyrdd Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a
Signalau ar gyfer cyffordd 49 yr M4	1.2	Chefnffyrdd
<b>Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth</b>	<b>6.0</b>	
Cronfa Twf Economaidd Cymru	2.5	Sectorau
Ardal Fenter Deeside	3.5	Sectorau
<b>Addysg a Sgiliau</b>	<b>8.0</b>	
Prosiectau pontio ar gyfer Ysgolion yr unfed ganrif ar hugain	5.0	Yr Ystâd a Darpariaeth TG
Campws ôl-16 Canol Dinas Caerdydd	3.0	Yr Ystâd a Darpariaeth TG
<b>Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy</b>	<b>9.0</b>	
Cynllun tloidi tanwydd Nyth	3.0	Datblygu a gweithredu polisi, gohebiaeth, deddfwriaeth a rheoliadau ar newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thloidi tanwydd.
Cynllun effeithlonrwydd ynni cyfnod 2 ARBED	2.0	Datblygu a gweithredu polisi, gohebiaeth, deddfwriaeth a rheoliadau ar newid yn yr hinsawdd, atal allyriadau a thloidi tanwydd.
Cynlluniau Amddiffyn Rhag Llifogydd ac Amddiffyn yr Arfordir	4.0	Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ar berygl llifogydd ac arfordiroedd, dŵr a charthfosaeth
<b>Tai, Adfywio a Threftadaeth</b>	<b>11.0</b>	
Partneriaeth Tai Cymru	6.0	Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai
Menter Troi Tai'n Gartrefi	5.0	Cynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai
<b>Cyfanswm</b>	<b>44.0</b>	

Ffynhonnell: Cyfrifiadau'r Gwasanaethu Ymchwil ar sail [Cyllideb Atodol 2012-13](#), Llywodraeth Cymru

<sup>28</sup> Llywodraeth Cymru, [Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru](#), Mai 2012 [fel ar 4 Gorffennaf 2012]

<sup>29</sup> Llywodraeth Cymru, Datganiad Cabinet Llafar gan Jane Hutt (y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ), [Cynllun Buddsoddi mewn Seilwaith i Gymru ar gyfer Twf a Swyddi](#), 22 Mai 2012 [fel ar 4 Gorffennaf 2012]



Yn ychwanegol at y prosiectau a nodir uchod, yn ei datganiad ar y cynllun,<sup>30</sup> cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at Gynllun Gwarant Morgais i Gymru a Bond Tai i Gymru mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol gyfredol. Ni chyfeirir at y rhain yn y gyllideb atodol. Mae'r Gweinidog wedi datgan mai'r rheswm am hyn yw bod y ddau gynllun yn dal i gael eu datblygu, ac y bydd y dyraniadau'n cael eu hadlewyrchu mewn cyllidebau dilynol.<sup>31</sup>

#### 4. Trosglwyddiadau rhwng portffolios ac ailstrwythuro

Mae'r gyllideb atodol yn gwneud nifer o drosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant, fel y nodir yn [nhabl 10](#). Effaith net y trosglwyddiadau hyn yw sero yn gyffredinol.

Ailstrwythurwyd rhai o'r prif grwpiau gwariant hefyd, fel a ganlyn:

- Yn y MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau, mae meysydd y rhaglen gwariant (SPAs) trafndiaeth wedi cael eu hailstrwythuro. Ceir eglurhad llawn o sut y cysonwyd hyn â'r hen strwythur yn y nodyn esboniadol sy'n cyd-fynd â'r gyllideb.<sup>32</sup> Nodir y gwneir hyn er mwyn alinio'r cyllidebau yn agosach â blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.<sup>33</sup>
- Yn y MEG Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ceir nifer o drosglwyddiadau rhwng gweithrediadau, a rhywfaint o fân ailstrwythuro. Nodir y gwneir hyn i gefnogi'r broses o ddarparu rhaglenni strategaeth y sectorau a'r rhaglenni strategaeth canolog.<sup>34</sup> Fel rhan o hyn, mae SPA/gweithred *Cyllid Cymru* a SPA/gweithred *Marchnata* wedi cael eu symud yn eu cyfanrwydd i'r SPA *Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol*. Er gwybodaeth, ni nodir y trosglwyddiadau hyn yn nhabl 10 gan eu bod yn drosglwyddiadau mewnol o fewn y prif grŵp gwariant.
- Yn unol â'r newidiadau diweddar yn y portffolios gweinidogol, mae'r weithred *Camddefnyddio Sylweddau* yn y prif grŵp gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi cael ei throsglwyddo i'r prif grŵp gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant, a'i henw bellach yw *Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau*

---

<sup>30</sup> Ibid

<sup>31</sup> Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion 4 Gorffennaf 2012 [nid oedd linc ar gael pan gyhoeddwyd y papur]

<sup>32</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2012-13: Nodyn Esboniadol](#), Mehefin 2012 (Atodiad 2) [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>33</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2012-13: Nodyn Esboniadol](#), Mehefin 2012 (tudalen 5) [fel ar 29 Mehefin 2012]

<sup>34</sup> Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol 2012-13: Nodyn Esboniadol](#), Mehefin 2012 (tudalen 27) [fel ar 29 Mehefin 2012]

**Tabl 10: Trosglwyddiadau rhwng y prif grwpiau gwariant**

O	£000s	I	£000s	Disgrifiad
<b>TROSGLWYDDIADAU REFENIW</b>				
<b>Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant (HSSC)</b>				<b>Trosglwyddiad net: 22,704</b>
